Wylfa Newydd

# Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 21: Cyfleusterau'r Orsaf Bŵer oddi ar y Safle

**Rhagfyr 2018**

Cyf PINS: EN010007

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

## 1.0 Cyfleusterau'r Orsaf Bŵer Oddi Ar y Safle

### 1.1 Cyd-destun

1.1.1 Cynigir lleoli Cyfleusterau'r Orsaf Bŵer Oddi Ar y Safle, gan gynnwys adeilad y Ganolfan Rheoli Argyfyngau, y Labordy Arolygon Amgylcheddol Amgen a'r Garej Cyfarpar Argyfwng Symudol ar dir cymharol isel rhwng dwy arwedd drymlin. Mae'r tirffurf yn gostwng yn raddol o'r gorllewin, sydd tua 55m AOD, i 48m AOD ar ffin ddwyreiniol y safle.

1.1.2 Mae'r safle, sy'n cynnwys tir a ddatblygwyd yn flaenorol a thir glas, yn wynebu'r A5025 i'r gorllewin ac mae'n llawr caled gan fwyaf, gan gynnwys dau fodurdy masnachol, adeilad atgyweirio cerbydau modur ac annedd un llawr. Mae anheddau cyfagos i'r safle i'r gogledd ac i'r de. Mae'r safle'n rhan o ddatblygiad hirgul toredig i'r dwyrain i'r A5025. Mae ffin ddwyreiniol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn yn mynd ar hyd ymyl bellaf y gerbytffordd i'r safle.

1.1.3 Bydd y cyfleuster yn weladwy i drigolion yn union i'r gogledd ac i'r rheini o gwmpas eglwys Llanfaethlu a'r ysgol yno, ac i ddefnyddwyr rhannau o'r rhwydwaith llwybrau troed. Mae golygfeydd o'r A5025 i'r gogledd ac i'r de yn debygol o fod wedi'u cuddio'n rhannol gan adeiladau a thopograffeg.

1.1.4 Mae Safle Bywyd Gwyllt a choetir hynafol Coed Garreg-Lwyd a SoDdGA Llyn Garreg-Lwyd ill dau wedi'u lleoli tua 750m i'r gogledd-orllewin. Ceir rhai cofnodion o lygod pengrwn y dŵr, madfallod dŵr cyffredin ac adar sy'n bridio o fewn 1km i'r safle. Mae'r safle wedi'i leoli mewn ardal sy'n wynebu risg sylweddol o lifogydd fel y mae modelau Horizon eu hunain yn ei ddangos (yn ogystal â'r risg o ddŵr arwyneb a ddangosir ar fap risg llifogydd dŵr arwyneb Cyfoeth Naturiol Cymru). Ni fydd llawer o'r gweddillion archeolegol ar y safle'n goroesi o ganlyniad i aflonyddwch blaenorol wrth adeiladu a defnyddio'r modurdy presennol.

### 1.2 Effeithiau a Sail Dystiolaeth

1.2.1 Mae'r isadrannau canlynol yn amlinellu'r effeithiau lleol a nodwyd gan CSYM. Ar gyfer testunau nad ydynt yn cael sylw yn y bennod hon, er enghraifft treftadaeth ddiwylliannol, gall yr Awdurdod Archwilio ddod i'r casgliad bod CSYM wedi ystyried bod yr effeithiau lleol yn niwtral ar gyfer yr elfennau hyn.

1.2.2 Mae CSYM yn cadarnhau bod y bennod hon yn yr Asesiad Effaith Lleol yn nodi effeithiau'r datblygiad arfaethedig yn gyffredinol a bod gan CSYM sylwadau manwl am ddyluniad y cynnig y byddant yn eu rhoi mewn cyflwyniad ar wahân i'r broses DCO. Fodd bynnag, mae CSYM yn cadarnhau nad yw'r sylwadau hyn am y dyluniad manwl yn newid yr effeithiau cyffredinol a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Lleol.

1.2.3 Mae adroddiad gwyriadau [oddi wrth safonau dylunio'r DRMB] wedi'i baratoi ar gyfer y gwaith all-lein ar yr A5025 ond nid ar gyfer safleoedd eraill. Mae CSYM o'r farn bod angen adroddiadau gwyriadau ar gyfer pob gwaith sy'n effeithio ar

y brifffordd gyhoeddus neu sy'n creu ffyrdd a fydd yn briffyrdd cyhoeddus neu a ddefnyddir gan y cyhoedd. Byddai CSYM yn gofyn i'r Awdurdod Archwilio fynnu bod adroddiadau gwyriadau'n cael eu cyflwyno ar gyfer y safle hwn fel y gellir ystyried y cynllun manwl arfaethedig yn briodol.

1.2.4 Er nad yw Horizon wedi nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i'w cynigion, mae CSYM o'r farn y byddai'r ymrwymiad i adfer safle'r hen fodurdy, pe câi ei wneud yn iawn, yn cael effaith gadarnhaol ar briddoedd ac yn osgoi unrhyw ddigwyddiadau llygredd yn y dyfodol. Darperir trafodaeth bellach am y dulliau y mae Horizon yn bwriadu eu defnyddio o ran y broses ddatgomisiynu yn yr isadran ganlynol.

1.2.5 Mae CSYM o'r farn bod y rhan fwyaf o'r effeithiau y rhagwelir y byddant yn digwydd o ganlyniad i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r safle'n niwtral. Fodd bynnag, mae CSYM wedi canfod rhai mesurau lliniaru ychwanegol y maent yn credu bod eu hangen i sicrhau bod effeithiau'n aros yn niwtral. Mae'r mesurau lliniaru a restrir isod naill ai'n ymestyn y rhai a nodwyd gan Horizon yn eu datganiad amgylcheddol a'r dogfennau cysylltiedig, neu'n ychwanegol atynt.

**Ecoleg**

1.2.6 Er nad yw asesiad Horizon yn ddigon cadarn mewn rhai mannau, yn gyffredinol mae CSYM yn cytuno â'r casgliadau a ffurfiwyd o ran lefel yr effeithiau ar dderbynyddion ecolegol. Felly, maent wedi dod i'r casgliad y bydd yr effeithiau'n niwtral cyn belled â'u bod yn mabwysiadau'r mesurau lliniaru a amlinellir yn yr ES a'r mesurau lliniaru ychwanegol a argymhellwyd gan CSYM.

1.2.7 Mae'r mesurau lliniaru ychwanegol a geisir gan CSYM yn cynnwys arolwg cyn adeiladu yn Adeilad M3 a'r 'hen adeiladau fferm' ar gyfer ystlumod. Nid oes arolygon gweithgarwch wedi'u cynnal, ac mae'r asesiadau gwaelodlin yn seiliedig ar arolygon a gynhaliwyd ar dir cyfagos yn 2014. Ystyrir bod yr arolygon hyn yn rhy hen ac yn anghyson â'r canllawiau ar eu cyfer. Er y cynhaliwyd arolygon clwydo yn 2016, nid yw'r adeiladau â'r potensial uchaf (cymedrol) am ystlumod (M3 a'r 'hen adeiladau fferm carreg') wedi cael arolwg. Mae dogfen 6.5.17 (Atodiad 9-1)[1] yn awgrymu bod Adeilad M3 y tu allan i safle'r cais, ond mae'r ffigwr cysylltiedig yn ei ddangos ar y tu mewn. Mae'r bennod ES yn nodi na chafodd Adeilad M3 ei arolygu yn 2016 gan ei fod ar y pryd y tu allan i ffin y safle arfaethedig.

1.2.8 Mae CSYM o'r farn nad yw'r ffaith bod ffin y safle wedi newid dros amser wrth i gynigion y datblygiad esblygu'n ddigon i gyfiawnhau peidio â chynnal arolwg ystlumod. Mae CSYM o'r farn y dylai'r broses o asesu'r effaith amgylcheddol roi gwybodaeth ddigonol i'r penderfynwyr i'w galluogi i ffurfio casgliad ynglŷn â'r posibilrwydd o effeithiau sylweddol. Byddai CSYM yn cynghori'n gryf y dylid cynnal arolygon gweithgarwch yn Adeilad M3 cyn gynted â phosibl ac y dylid rhoi gwybod amdanynt o fewn cyfnod proses barhaus yr Archwiliad DCO.

[1] Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[255]

1.2.9 Hefyd, dylid ymestyn mesurau lliniaru ymroddedig i sicrhau bod y cynllun goleuo'n gydnaws â chanllawiau'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, y cadarnheir arferion gwaith rhagofalus ar gyfer herpetoffawna ac Adran 7 (mamolion) o fewn yr is-CoCP[2] ac y darperir manylion pellach ynglŷn â'r mesurau i'w cymryd o ran effeithiau adeiladu draeniau/arllwysfa ar ddyfrgwn a llygod pengrwn y dŵr. Hefyd, hoffai CSYM weld y datganiadau dull a gynhyrchir i sicrhau nad yw gwaith yn niweidio rhywogaethau gwarchodedig.

## Dŵr Arwyneb a Dŵr Daear

1.2.10 Mae Horizon wedi nodi amryw o effeithiau bach niweidiol/bach buddiol o ran dŵr arwyneb a dŵr daear sy'n anarwyddocaol ac felly'n niwtral at ddibenion yr adroddiad hwn. Manylir deunaw o'r effeithiau hyn a aseswyd yn Atodiad I3-1[3]. Mae CSYM yn cytuno â'r casgliadau hyn yn amodol ar yr eglurhad canlynol.

1.2.11 Mae CSYM yn nodi bod yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd yn nodi risgiau â llwybr llif dŵr arwyneb ac â dyfnder/cyflymder dŵr llifogydd ar yr A5025 ym mynedfa'r safle, a drwy'r safle. Mae CSYM yn cydnabod bod gan Horizon ddyluniad arfaethedig a fyddai'n atal unrhyw ddŵr llifogydd, gan nodi y câi hyn ei gadarnhau mewn dyluniad manwl; mae'n bosibl y byddai safle'r datblygiad yn y dyfodol yn wynebu llifogydd â dyfnder 0.022m yn y digwyddiad 0.01%.

1.2.12 Byddai CSYM yn nodi y byddai'r mesurau lliniaru arfaethedig yn dibynnu ar waith cynnal a chadw rheolaidd. Dylid ymrwymo i wneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd. Hefyd, wrth ymgymryd â'r dyluniad manwl mae angen rhoi sicrwydd i Horizon a CSYM bod y pibelli sy'n draenio'r 'grid gwartheg' i atal dŵr arwyneb oddi ar yr A5025 yn ddigonol o ran maint/cynhwysedd a dylid rhoi'r wybodaeth hon i CSYM cyn dechrau'r datblygiad. Ceisir eglurder hefyd ynglŷn ag a fyddai falfiau rheoli llygredd ar y pant a fyddai'n gysylltiedig â'r arwedd er mwyn rheoli'r risg y gallai fod yn llwybr i lygredd rhwng yr A5025 ac Afon Llanhyddlad.

## Tirwedd a Gweledol

1.2.13 Mae CSYM yn nodi bod Horizon wedi canfod rhai mân effeithiau niweidiol nad ydynt yn arwyddocaol ar gymeriad tirwedd y safle a'r ardal o'i gwmpas, gan gynnwys rhan leol o'r AHNE, yn ystod y cyfnod adeiladu, ac mae CSYM yn cytuno â'r casgliad hwn. Un ffordd o liniaru ymhellach effeithiau gweddilliol y datblygiad fyddai cadw mwy o'r llystyfiant aeddfed presennol ar y ffiniau gan y gallai hyn leihau'r effeithiau tymor byr hyn yn bellach.

1.2.14 Byddai'r plannu newydd sy'n arfaethedig ar ddechrau'r cyfnod gweithredol yn cael rhai effeithiau buddiol tymor hir ar gymeriad y dirwedd leol. Fodd bynnag, mae CSYM o'r farn bod yr adeiladau arfaethedig, ac yn enwedig y Garej Cyfarpar Argyfwng Symudol a'r Ganolfan Rheoli Argyfyngau oherwydd eu maint, eu huchder a'u màs yn amlwg iawn yn erbyn cymeriad y dirwedd ar hyn o bryd o fewn yr AHNE (Golygfan 7) a hefyd yn y dirwedd leol (Golygfan 8). Er

[2] Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[417]
[3] Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[391]

y byddai'r planhigion newydd arfaethedig yn raddol yn lleddfu'r effeithiau niweidiol hyn ar gymeriad y dirwedd, byddent yn llai llwyddiannus o ran lleddfu effeithiau ar yr AHNE. Mae ffin yr AHNE yn mynd ar hyd ochr bellaf y gerbytffordd o'r cyfleuster am hyd nad yw'n fwy nag 1km. Gallai'r goleuo arfaethedig hefyd effeithio ar yr AHNE gyfagos, a hefyd ar drigolion lleol a derbynyddion ecolegol (gweler uchod).

1.2.15 Hoffai CSYM weld mwy o blanhigion sgrinio'n cael eu plannu ar hyd ffiniau gorllewinol a gogleddol y safle a fyddai'n cynnwys cloddiau â gwrychoedd arnynt. Dylid defnyddio dull tebyg hefyd ar y ffin ddwyreiniol yn hytrach na'r waliau cerrig a'r gwrychoedd arfaethedig. Hefyd, hoffai CSYM gytuno ar fanylion terfynol gan gynnwys samplau o'r defnyddiau to a waliau a gynigir ar gyfer yr adeiladau gan ystyried ffyrdd o wneud y Garej Cyfarpar Argyfwng Symudol a'r Ganolfan Rheoli Argyfyngau yn llai gweledol amlwg. Gwneir ceisiadau tebyg isod i blannu mwy o blanhigion i liniaru effeithiau gweledol sylweddol ar drigolion lleol a defnyddwyr y rhwydwaith llwybrau troed lleol.

**Materion economaidd-gymdeithasol**

1.2.9 Mae Horizon yn dweud y byddai adeiladu'r cyfleuster pŵer oddi ar y safle'n cynhyrchu rhai buddion economaidd, gan gynnwys creu swyddi, ac y gallai fod effeithiau cadarnhaol ar gadwynau cyflenwi lleol drwy ddefnyddio contractwyr a busnesau lleol. Mae'r bennod ES Cyfrol E - Materion Economaidd-gymdeithasol[4] yn cofnodi na fyddai dim effeithiau economaidd-gymdeithasol niweidiol sylweddol, ac mae CSYM yn cytuno â'r casgliad hwn.

1.2.17 Mae Horizon ar hyn o bryd yn ymrwymedig i darged llafur lleol o 22% ar draws prosiect Wylfa Newydd. Mae CSYM o'r farn bod y math o weithgareddau adeiladu sydd eu hangen i adeiladu'r cyfleusterau oddi ar y safle'n addas iawn i'r gadwyn gyflenwi leol ac yn gofyn i Horizon ymrwymo i darged uwch ar gyfer cyflogi pobl leol yn y cyfleuster yn ogystal ag ymrwymo i'r gadwyn gyflenwi leol. Dylai targed uwch ar gyfer cyflenwi llafur yn lleol fod yn annibynnol ar darged gwaelodlin prosiect Wylfa Newydd yn ei gyfanrwydd, ond ni ddylai arwain at gyflawni canran is ar safle'r Orsaf Bŵer, er enghraifft.

1.2.18 Mae CSYM yn gofyn i Horizon ymchwilio i'r potensial y gallai'r seilwaith TGCh sydd ei angen ar gyfer y safleoedd hyn hefyd wella cysylltedd band eang a gwasanaethau ffôn symudol i'r cymunedau cyfagos fel budd etifeddol.

**Priddoedd a Daeareg**

1.2.19 Mae CSYM o'r farn bod yr amodau gwaelodlin wedi'u disgrifio'n briodol ar y cyfan a bod effeithiau posibl y datblygiad wedi'u cydnabod. Fodd bynnag, hoffai CSYM weld manylion pellach yn yr is-CoCP Cyfleusterau Pŵer Oddi Ar y Safle[5] i'w wneud yn fanylach ac yn haws ei orfodi, a chyfeirir at y cais hwn isod o fewn yr ystyriaeth i ofynion DCO ychwanegol/diwygiedig.

[4] Llyfrgell Archwilio Cyfeirnod APP-241

[5] Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[417]

1.2.20 Mae'r Effeithiau Negyddol a nodwyd gan CSYM yn cynnwys yr effeithiau a gaiff y datblygiad ar y dirwedd a derbynyddion gweledol.

**Tirwedd a Gweledol**

1.2.21 Mae CSYM wedi canfod effaith negyddol sylweddol ar gyfansoddiad y dirwedd, sy'n grŵp derbynnydd nad yw Horizon wedi'i ystyried. Mae CSYM o'r farn y byddai colli gwrychoedd a glaswelltir i'r de o'r depo presennol yn achosi effeithiau negyddol sylweddol yn y tymor canolig (hyd at ddeg mlynedd), nes i'r planhigion newydd y cynigir eu plannu aeddfedu. Hoffai CSYM i Horizon ddiwygio eu cynigion lliniaru i gynnwys cloddiau â gwrychoedd arnynt, fel y nodwyd uchod.

1.2.22 Mae CSYM wedi dod i'r casgliad y byddai cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleusterau gorsaf bŵer oddi ar y safle yn cynhyrchu nifer bach o effeithiau gweledol sylweddol niweidiol ar y grwpiau o dderbynyddion gweledol a leolir yn y Parth Gweledadd Damcaniaethol ac ardal yr astudiaeth. Mae Horizon wedi nodi rhai o'r effeithiau hyn, ond casgliad CSYM yw bod nifer o dderbynyddion gweledol eraill lle dylid asesu bod maint y newid gweledol yn fwy na'r hyn a nodwyd o fewn y ddogfen a gyflwynwyd gan Horizon, Atodiad E 10-3[6].

1.2.23 Yng Ngolygfan 2 Horizon[7], mae grŵp o dderbynyddion cymunedol a fyddai'n debygol o ddioddef effeithiau niweidiol sylweddol yn Ysgol Gynradd newydd Rhyd y Llan (S1). Y prif ffactorau yw'r ffaith eu bod mor agos a bod ganddynt olygfeydd agored o safle ychydig bach yn uwch. Byddai cynyddu nifer y coed gwrych unigol rhwng y safle a'r ysgol o bosibl yn darparu mwy o sgrinio rhannol yng ngolygfeydd gogleddol yr ysgol.

1.2.24 Yng Ngolygfan 4[8], gallai fod effaith sylweddol ar gyfran o'r grŵp CR2 sef trigolion y grŵp o eiddo sydd wedi'i leoli'n agos at yr A5025 i'r gogledd o Lanfaethlu. Mae'r ffaith bod cyfleusterau'r orsaf bŵer oddi ar y safle mor agos at rai o'r tai hyn, ac mai ychydig iawn o sgrinio sydd rhyngddynt, yn golygu y bydd trigolion nifer bach o'r tai hyn yn dioddef effeithiau niweidiol sylweddol. Un ffactor sy'n cyfrannu at hyn yw'r ffaith bod y gwaith plannu tirwedd a gynigiwyd ar y safle bron i gyd wedi'i leoli yn rhan ddeheuol y safle, ac felly ni fydd yn darparu sgrinio ar gyfer trigolion eiddo i'r gogledd. Felly, hoffai CSYM weld cyfran o goed mwy yn cael eu plannu ar hyd y gwrychoedd presennol ar ffiniau gogleddol a dwyreiniol y safle. Dylid plannu'r rhain ar ddechrau'r cyfnod adeiladu, neu cyn hynny, oherwydd byddai eu maint yn golygu y byddent yn hidlo golygfeydd o'r gogledd a'r dwyrain ar unwaith.

1.2.25 Mae CSYM hefyd wedi nodi ail leoliad i blannu planhigion ychwanegol ar y safle. Hwn yw'r ynys draffig ar gyfer mynediad i'r safle lle byddai plannu llwyni a/neu goed yn sgrinio a hidlo golygfeydd i raddau ar gyfer derbynyddion

[6] Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[259]
[7] Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[260]
[8] Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[260]

gweledol a leolir i'r gorllewin a'r gogledd-orllewin o'r safle. Dylid plannu'r rhain yn gynnar hefyd.

1.2.26 Bydd effeithiau sylweddol ar dderbynyddion hamdden sy'n defnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus lleol. Mae'r gyntaf o'r hawliau tramwy cyhoeddus hyn (FP2 yng Ngolygfan 7[9]) oddi mewn i'r AHNE ac ni fydd defnyddwyr y llwybr troed yn elwa o sefydlu'r planhigion ar y safle a gynigir gan Horizon. Casgliad CSYM yw y bydd effeithiau negyddol sylweddol yn parhau drwy gydol y cyfnod gweithredu heb blannu planhigion cyfyngedig oddi ar y safle a fydd yn ymsefydlu i hidlo golygfeydd.

1.2.27 Bydd defnyddwyr yr ail hawl dramwy gyhoeddus (FP1 yng Ngolygfan8[10]) hefyd yn dioddef effeithiau negyddol sylweddol ond dim ond nes bod y planhigion y cynigir eu plannu ar ffiniau deheuol a de-ddwyreiniol y safle'n ymsefydlu ac yn darparu rhywfaint o sgrinio.

1.2.28 Dylid darparu mesurau cydbwyso ar ffurf gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus lleol. Bydd y rhain yn cynnwys arwyddion, arwynebau a darparu gatiau/camfâu mynediad fel y bo'n briodol. Dylai'r gwelliannau fod yn gyson â strategaethau hamdden a mynediad cyffredinol CSYM a amlinellwyd yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2008-2018 a'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd pan gaiff ei gymeradwyo, yn ogystal â'r Cynllun Rheoli AHNE.

1.2.29 Byddai plannu i liniaru oddi ar y safle'n fuddiol i olygfeydd o'r AHNE ar ochr y cae i'r wal gerrig ar hyd ymyl orllewinol yr A5025.

## 1.3 Safbwynt Polisi

1.3.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (2016), (PCC) ynghyd â TAN23 (2014) yn annog twf economaidd a thwf cyflogaeth ochr yn ochr ag ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol o fewn cyd-destun datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, lle byddai datblygiad arfaethedig yn achosi niwed annerbyniol i'r amgylchedd neu i gymdeithas, dylid cyfeirio'r galw am y datblygiad i leoliad arall, oni bai bod budd ychwanegol y datblygiad yn y safle arfaethedig yn drech na'r niwed.

1.3.2 Mae Cydgynllun Datblygu Lleol CSYM Polisi PS9 Wylfa Newydd a Datblygiadau Perthynol (Maen Prawf 1) yn nodi bod rhaid i gynigion am ddatblygiad perthynol i brosiect Wylfa Newydd ystyried polisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Cydgynllun, ac unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol perthnasol. Felly, mae CSYM o'r farn bod Polisi CYF 4 (Mentrau diwydiannol neu fusnes newydd ar gyfer un defnyddiwr mawr oddi ar safleoedd wedi eu gwarchod neu eu dynodi ar gyfer cyflogaeth) yn berthnasol. Mae hwn yn caniatáu mentrau diwydiannol neu fusnes newydd ar gyfer un defnyddiwr mawr oddi ar unedau cyflogaeth neu fusnes cyn belled â bod y cynnig yn cydymffurfio â'r meini prawf a restrir o fewn y polisi. Mae'r maen prawf cyntaf o fewn y polisi'n pennu gofyniad lleoliad y datblygiad arfaethedig, gan nodi bod rhaid lleoli'r safle arfaethedig o fewn neu union wrth ymyl ffin datblygu'r ganolfan isranbarthol,

[9] Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[260]
[10] Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[260]

canolfannau trefol neu leol. Mae'r meini prawf eraill ym mholisi CYF 4 yn pennu bod angen i'r cynnig gydymffurfio â'r profion a amlinellir yn PCC a TAN23. Hefyd, ble yn briodol, dylid defnyddio adeilad presennol neu safle a ddatblygwyd o’r blaen ar gyfer y safle a dylai fod graddfa, math a dyluniad y datblygiad yn addas ar gyfer y safle a’r ardal leol.

1.3.3 Byddai cyfleusterau arfaethedig yr orsaf bŵer oddi ar y safle wedi'u lleoli ar safle sydd wedi'i ddosbarthu'n ‘gefn gwlad agored’ o fewn y Cydgynllun ac mae CSYM o'r farn nad yw'r cynnig felly'n cydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir ym Mholisi CYF 4. Mae Polisi Pellach PCYFF 1 (Ffiniau Datblygu) yn pennu y dylid gwrthod cynigion y tu allan i ffiniau datblygu oni bai eu bod yn unol â pholisïau penodol yn y Cydgynllun neu bolisïau cynllunio cenedlaethol neu fod y cynnig yn dangos bod ei leoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol.

1.3.4 Mae CCA Wylfa Newydd (Polisi EA31) o blaid egwyddor lleoli'r Cyfleusterau Oddi Ar y Safle ar hyd coridor yr A5025 cyn belled â bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisïau'r Cydgynllun Datblygu Lleol a bod cefnogaeth i adleoli'r busnes presennol ar y safle. Mae CSYM yn nodi nad oes dim manylion wedi'u cynnwys yn y dogfennau a gyflwynwyd ynglŷn ag adleoli'r busnes presennol ac a oes safle addas ar gael i'r busnes.

1.3.5 Mae dogfennau Horizon a gyflwynwyd gyda'r cais yn pennu gofynion lleoliadol penodol ynglŷn â chyfleusterau arfaethedig yr orsaf bŵer oddi ar y safle, gan fynnu lleoliad sydd tua'r prifwynt o unrhyw beryglon posibl yn yr aer a rhwng 1.5km - 7.5km oddi wrth y prif safle. Mae'r Adroddiad Dewis Safle (Cyfrol 1 a 4) yn sefydlu ardal chwilio sy'n seiliedig ar y gofyniad lleoliadol ac yn rhoi manylion y broses ddewis sydd wedi arwain at ddewis safle Llanfaethlu fel hoff ddewis Horizon.

1.3.6 Byddai CSYM yn cytuno na ellir dod o hyd i safle arall (mwy priodol) a fyddai'n cydymffurfio ag egwyddor Polisi CYF 4 o fewn ardal chwilio Horizon. Mae CSYM hefyd yn cydnabod y ffaith bod y rhan fwyaf o'r safle'n dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac yn nodi ei fod yn hygyrch o ran yr A5025. Am y rhesymau hyn, mae CSYM yn fodlon ag egwyddor y datblygiad hwn ar y safle yn amodol ar y materion polisi canlynol sy'n benodol i'r safle.

## Ecoleg

1.3.7 Mae'r polisïau sy'n berthnasol i geisiadau CSYM am fesurau lliniaru ychwanegol yn cynnwys Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Darperir manylion pellach ym mharagraff 5.3.1 y bennod am Ardal Datblygu Wylfa Newydd). Mae CSYM o'r farn bod y ddeddfwriaeth a'r polisi cenedlaethol, wedi'i ategu gan bolisi lleol isod, yn cyfiawnhau eu cais am liniaru ychwanegol a wneir uchod.

1.3.8 Mae Polisi Strategol PS5 y Cydgynllun Datblygu Lleol, Datblygu Cynaliadwy, ym maen prawf 6 yn nodi y dylai pob cynnig *‘warchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a’i asedau bioamrywiaeth’* ac mae maen prawf 8 Polisi Strategol PS19 yn nodi, wrth wneud penderfyniad am gais cynllunio,

bod angen '*Gwarchod, cadw neu wella coed, gwrychoedd, coetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol a mwynderol'*.

1.3.9 Mae Polisi AMG5 y Cydgynllun Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol yn nodi bod rhaid i gynigion '*warchod a, ble'n briodol, gwella bioamrywiaeth…ystyried cyfleoedd i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt…coed, gwrychoedd*' ac ati.

1.3.10 Mae EA21 CCA Wylfa Newydd Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol yn nodi *'lle na ellir atal effeithiau niweidiol, bydd angen rhoi mesurau priodol ar waith i'w lliniaru a/neu eu cydbwyso'*.

1.3.11 Fel y'u cyflwynwyd, nid yw cynigion Horizon yn gwneud digon i gyfiawnhau'r casgliadau a ffurfiwyd. Mae CSYM yn arbennig o bryderus am y diffyg arolygon ystlumod cyfredol ac yn gofyn iddynt amlinellu manylion pellach am fesurau i warchod rhywogaethau o fewn yr is-CoCP. Mae'r cynllun datblygu lleol a'r polisi CCA y cyfeirir atynt uchod yn rhoi'r cyfiawnhad dros ofyn am ddarparu digon o fanylion i CSYM allu bod yn fodlon y gellir gwarchod ecoleg y safle.

**Tirwedd a Gweledol**

1.3.12 Mae Polisi Strategol PS9: Wylfa Newydd a Datblygiad Perthynol yn nodi o dan faen prawf 8 *"Dylai sut mae'r cynllun yn cael ei gynllunio...tirweddu, plannu (gan gynnwys gwrychoedd a choed), ... osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn am ardrawiadau ar olygfa, tirwedd ac ecoleg yr ardal leol ac ehangach*." Mae maen prawf 13 yn nodi "*Dylai'r baich a'r tarfu ar y gymuned ... gael ei gydnabod; a bydd ymgais i gael y datblygwr i ddarparu pecynnau priodol o fuddion i'r gymuned er mwyn gwrthbwyso a digolledu'r gymuned*…". Mae'r ddau faen prawf hyn yn ategu'r angen i ddarparu mesurau lliniaru a gwneud iawn, yr ail o'r rhain ar ffurf plannu i sgrinio oddi ar y safle, darpariaeth a fydd o bosibl yn lleihau'r effeithiau gweledol niweidiol y bydd trigolion yn eu dioddef.

1.3.13 Mae Polisi Strategol PS9, maen prawf 16 yn nodi ei bod yn bosibl, wrth i'r prosiect ddatblygu, oherwydd canlyniadau na chawsant eu rhagweld yn sgil y cyfnodau adeiladu a gweithredu, y bydd angen i'r datblygwr wneud gwaith er mwyn gwneud iawn am unrhyw effeithiau ychwanegol ar y gymuned mae hynny'n effeithio arni h.y. Llanfaethlu. Gallai hyn fod yn berthnasol pe na bai'r gwaith tirlunio arfaethedig ar y safle'n llwyddo i hidlo a sgrinio'n effeithiol. Felly, mae CSYM o'r farn bod angen i'r datblygwr fonitro effeithiau ac adolygu digonoldeb y mesurau lliniaru a gwneud addasiadau fel y bo angen. Gallai'r addasiadau hyn gynnwys plannu planhigion ychwanegol ar y safle ac oddi arno.

1.3.14 Bydd angen i unrhyw blanhigion sgrinio lleol a blannir o fewn y cymunedau neu'n agos atynt fodloni llawer o'r meini prawf ym Mholisi PCYFF4: Dylunio a Thirweddu. Mae'r esboniad ategol yn nodi y gall cynllun tirwedd sydd wedi'i ddylunio a'i weithredu'n dda droi'n "*ased parhaus i'r gymuned*" ac mai'r nod cyffredinol yw "*cael amgylchedd sy'n rhoi gymaint ag y bo modd o ansawdd bywyd da i'r bobl sy'n byw a gweithio yn ardal y Cynllun*".

1.3.15 Mae'r planhigion lliniaru y gofynnwyd amdanynt ar y safle ac oddi ar y safle ar gyfer y Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi Ar y Safle'n cael cefnogaeth bellach gan rai o'r Amcanion a'r Egwyddorion Arweiniol oddi mewn i CCA Wylfa Newydd. Yr Egwyddorion Arweiniol sy'n arbennig o berthnasol yw: EA 27: Egwyddorion Datblygu Allweddol Gogledd Ynys Môn – is-egwyddor v) yn cyfeirio at yr angen am Gronfa Cydnerthedd Cymunedol ar gyfer achosion lle na fydd modd mesur na rhagweld effeithiau a fydd yn nodi mesurau i wella Gogledd Ynys Môn fel lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

1.3.16 Fel y mae Ffigwr E10-2 yn ei ddangos, mae'r Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi Ar y Safle wedi'u lleoli ychydig bach i'r dwyrain o AHNE Ynys Môn. Gan eu bod yn agos iawn at ffin yr AHNE, mae un o chwe thema'r Adolygiad Cynllun Rheoli AHNE: gwella cymeriad cefn gwlad a'r arfordir yn berthnasol drwy amcan rheoli 3: datblygiad sy'n nodi "*bydd polisïau cynllunio'n sicrhau bod pob datblygiad oddi mewn i ffiniau'r AHNE ac yn gyfagos iddynt yn gydnaws â nodau ac amcanion y dynodiad a bydd y datblygiadau newydd yn gwella'r cymeriad lleol.*" Mae polisi CCC3.2 yn nodi y bydd disgwyl i bob datblygiad newydd o fewn 2km i'r AHNE "*fabwysiadu'r safonau uchaf o ran dylunio, defnyddiau a thirweddu …"*

1.3.17 Mae Adolygiad Cynllun Rheoli'r AHNE yn dod i'r casgliad y gellir cynorthwyo i gyflawni pedair o'r themâu hyn drwy roi'r mesurau lliniaru a chydbwyso pellach a nodwyd ar waith, a'u rheoli. Mae cyflawni Thema AHNE: Gwella Cymeriad Cefn Gwlad a'r Arfordir yn ategu cais CSYM i roi'r mesurau lliniaru a chydbwyso pellach arfaethedig y cyfeirir atynt uchod ar waith, a'u rheoli. Ategir y cais hwn ymhellach gan gyfeiriad at Strategaeth Tirweddu Ynys Môn (Diweddariad 2011). Mae'r safle wedi'i leoli o fewn *Ardal Cymeriad Tirwedd 5: Gogledd Orllewin Ynys Môn*, ac mae'r strategaeth yn cynghori y dylai'r datblygiad geisio defnyddio patrymau tirffurf a llystyfiant i liniaru effeithiau, sicrhau bod y raddfa, y ffurf a'r defnyddiau'n parchu arferion lleol a defnyddio a chadw patrymau ffiniau caeau lleol, gan gynnwys cloddiau a gwrychoedd.

## Dŵr Arwyneb a Dŵr Daear

1.3.18 Yn y Cydgynllun Datblygu Lleol, mae Polisi Strategol PS 5 Datblygu Cynaliadwy, meini prawf 6, 7 ac 8 yn ymwneud â gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, yr angen i osgoi llygredd o ddatblygiadau newydd a'r angen i leihau effaith datblygiad ar adnoddau dŵr ac ar ansawdd dŵr yn ogystal â'r angen i reoli perygl llifogydd ac uchafu'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy.

1.3.19 Mae CCA Wylfa Newydd, yn EA20 Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd, yn mynnu y rhoddir mesurau priodol ar waith i gynnwys effeithiau'r newid yn yr hinsawdd megis darparu man i storio dŵr llifogydd a defnyddio systemau draenio cynaliadwy. Mae hefyd yn dweud bod rhaid cyflwyno cynlluniau ar gyfer rhybuddio rhag llifogydd a gwagio safleoedd.

1.3.20 Mae CCA EA22 Gwarchod yr Amgylchedd Dŵr hefyd yn dweud bod rhaid i hyrwyddwr y prosiect ddangos na fydd y prosiect yn cael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr, cynefinoedd glannau afon a rhywogaethau dŵr a lle nodir bod posibilrwydd o effeithiau niweidiol, y dylid rhoi mesurau ar waith i liniaru'r

effeithiau hyn. Mae'r Egwyddor Arweiniol hefyd yn galw am reoli dŵr wyneb ffo drwy gynnwys systemau draenio cynaliadwy.

1.3.21 Mae polisïau lleol sydd wedi'u llunio i negyddu neu leihau effeithiau lleol yn helpu i sicrhau bod mesurau risg llifogydd Horizon yn ‘gynhwysfawr’; ac i sicrhau bod yr amgylchedd naturiol wedi'i warchod yn llawn drwy gyfrwng y mesurau ychwanegol a geisir gan IACC.

**Priddoedd a Daeareg**

1.3.22 Mae'r Cydgynllun Datblygu Lleol, ym Mholisi Strategol PS 5 Datblygu Cynaliadwy, maen prawf 7 yn mynnu y gwarchodir ansawdd pridd. Mae EA 21 CCA Wylfa Newydd, Gwarchod a Gwella’r Amgylchedd Naturiol, yn cydnabod bod adfer tir halogedig yn gallu bod yn fesur lliniaru ar gyfer effeithiau ar yr amgylchedd naturiol. Byddai ailddefnyddio safle a ddatblygwyd yn flaenorol ac a allai fod yn halogedig yn gyson â'r elfennau hyn ar y polisïau lleol.

## 1.4 Bylchau yn y Wybodaeth

1.4.1 Yn seiliedig ar wybodaeth CSYM am y safle a'r wybodaeth a ddarparwyd gan Horizon yn eu hasesiad, mae nifer o fylchau yn y wybodaeth wedi'u nodi. Amlinellir y bylchau hyn a'r angen am wybodaeth ychwanegol o ganlyniad iddynt isod:

**Ecoleg**

1.4.2 Ystyrir bod rhai arolygon yn rhy hen ac ni fu arolwg ystlumod ar gyfer adeilad M3. Felly, dylid cynnal arolygon cyn adeiladu mewn da bryd i ganiatáu naill ai newidiadau i'r dyluniad neu gyflwyno a chaniatáu trwyddedau cyn i'r gwaith datblygu ddechrau. Byddai gwybodaeth bellach am y dulliau o liniaru effeithiau adeiladu ar gynefinoedd a rhywogaethau ar y safle ac oddi arno'n cael ei chynnwys mewn gofyniad DCO diwygiedig; cyfeirir at hwn yn yr is-adran nesaf.

**Tirwedd a Gweledol**

1.4.3 Ym marn CSYM, mae bylchau yn yr asesiad a gyflwynwyd gan Horizon. O ran derbynyddion Tirwedd, nid oes arolwg gwaelodlin neu asesiad o'r effeithiau ar gyfansoddiad y dirwedd, na chynllun manwl ar gyfer tirwedd galed a meddal. Mae angen y ddau o'r rhain er mwyn deall effeithiau'r datblygiad arfaethedig yn llawn.

1.4.4 Mae'r ffordd o grwpio derbynyddion gweledol preswyl mewn anheddiad neu gymuned yn anwybyddu'r amrywiadau yn yr amodau gwaelodlin a maint y newid ac felly yn arwyddocâd yr effeithiau gweddilliol sy'n debygol o gael eu dioddef gan wahanol dderbynyddion preswyl. Mae CSYM o'r farn bod angen asesu'r effeithiau ar eiddo preswyl unigol er mwyn deall yr effeithiau a pha mor angenrheidiol neu beidio yw camau lliniaru pellach.

1.4.5 Mae angen newidiadau hefyd i'r cynllun tirwedd a gyflwynwyd i gynnwys cadw mwy o'r llystyfiant presennol, parhad y wal gerrig isel a phlannu planhigion ar

hyd ymyl yr A5025 os yw hynny'n ymarferol. Hefyd, mae angen gwrychoedd a choed gwrych brodorol ar hyd ffin ogleddol y safle, plannu planhigion ychwanegol gan gynnwys cloddiau mewn mannau eraill ar hyd ffiniau eraill y safle a chynnig i sicrhau plannu oddi ar y safle. Mae CSYM yn mynnu ymrwymiad i ddarparu mesurau gwneud iawn drwy wneud gwelliannau i ansawdd llwybrau troed yn yr ardal yn gyson â strategaethau hamdden a mynediad cyffredinol CSYM a amlinellwyd yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2008-2018 a'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd, yn ogystal â'r Cynllun Rheoli AHNE.

1.4.6 Mae CSYM yn gofyn i Horizon ymchwilio i'r potensial y gallai'r seilwaith TGCh sydd ei angen ar gyfer y safleoedd hyn hefyd wella cysylltedd band eang a gwasanaethau ffôn symudol i'r cymunedau cyfagos fel budd etifeddol.

## 1.5 Rhwymedigaethau a Gofynion DCO

1.5.1 Byddai CSYM yn gofyn am ddiwygio'r is-CoCP a gyflwynwyd ar gyfer y Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi Ar y Safle[11] i gynnwys y wybodaeth y gofynnwyd amdani uchod neu am ddiwygio'r gofyniad DCO OPSF1 i gyflwyno cod ymarfer adeiladu diwygiedig i CSYM i'w gymeradwyo cyn dechrau datblygu'r safle. Dylai'r ddogfen ddiwygiedig gynnwys paratoi datganiadau dull ecolegol y dylid eu cyflwyno i CSYM i'w cymeradwyo. Dylai'r ddogfen gynnwys cadarnhad y byddai'r goleuo ar y safle'n gyson â Chanllawiau'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod a dylai hefyd gynnwys manylion pellach ynglŷn â lliniaru rhag halogiad a darparu Cynllun Rheoli Pridd cyn i'r gwaith ddechrau.

1.5.2 Mae'n rhaid mynnu bod Horizon yn cyflwyno manylion unrhyw arolygon ystlumod a gynhelir yn Adeilad M3 ac adeiladau eraill ar ffurf arolygon cyn adeiladu. Er bod yr is-CoCP yn cyfeirio at hyn[12], mae'r diffyg arolwg yn M3 yn dal i beri pryder i CSYM.

1.5.3 Mae CSYM hefyd yn gofyn am ofyniad DCO i fynnu bod Horizon yn cyflwyno cynllun tirweddu caled a meddal diwygiedig a manylach a rhestr blannu i nodi mannau plannu eraill ar y safle ac oddi arno, yn gyson â chais CSYM o dan ‘Tirwedd a Gweledol’ uchod. Dylai'r cynllun gynnwys defnyddio cloddiau. Dylai'r cynllun fod yn seiliedig ar arolwg gwaelodlin o elfennau presennol y dirwedd (caled a meddal) yn ogystal ag asesiad o'u cyfraniad at gymeriad y dirwedd a'u gwerth sgrinio. Gall CSYM roi rhestr fanwl o'r wybodaeth sy'n ofynnol ganddynt i ffurfio rhan o'r cynllun tirweddu.

1.5.4 Os oes angen cytuno ar driniaeth weddluniol cyn diwedd yr Archwiliad DCO, byddai CSYM yn gofyn am ddarparu gofyniad DCO sy'n mynnu bod Horizon yn cyflwyno manylion i ddangos y driniaeth weddluniol i'r adeiladau, ar ben y rheini a gyflwynwyd hyd yn hyn. Dylai'r gofyniad gynnwys bod CSYM yn cytuno ymlaen llaw ynglŷn â'r defnyddiau a ddefnyddir ac y cyflwynir samplau o'r defnyddiau i'w cymeradwyo. Dylai Horizon hefyd ystyried/cyfiawnhau lleoliad yr adeiladau arfaethedig; hoffai CSYM weld y pellter rhwng y ffens ddiogelwch a

[11] Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[417]
[12] Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[417]

ffin ogleddol y safle'n cynyddu i ganiatáu plannu planhigion sgrinio rhwng y ffens a'r eiddo preswyl cyfagos a chynnydd yn y pellter rhwng adeilad y Labordy Arolygon Amgylcheddol Amgen a'r ffin orllewinol i feddalu ei edrychiad yn yr un modd.

1.5.5 Oni chyflwynir gwybodaeth yn ystod yr archwiliad, mae CSYM hefyd yn gofyn am ofyniad DCO diwygiedig OPSF3 i gynnwys cyfeirio at fanylion draenio yn ogystal â'r adeiladau.

1.5.6 Gellid lliniaru unrhyw aflonyddu ar weddillion archeolegol drwy gytuno i roi cynllun ymchwilio archeolegol ar waith a ddylai fod yn destun gofyniad DCO i ganiatáu i CSYM gyflawni hyn, gan ymgynghori â GAPs yn hytrach na dibynnu ar y rheolyddion a amlinellir yn adran 11.4 yr is-CoCP[13].

1.5.7 O bosibl fel rhan o'r ymrwymiad S106, dylai Horizon nodi swm o arian a mecanwaith i blannu'r planhigion sgrinio oddi ar y safle ac i ddarparu mesurau cydbwyso i wella ansawdd a defnyddioldeb y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus o gwmpas y safle. Dylai'r gronfa hefyd fodoli i blannu planhigion sgrinio oddi ar y safle yn y gymuned leol a dylai barhau drwy gydol y cyfnod adeiladu ac am 5 mlynedd arall.

1.5.8 O ystyried yr effeithiau ar yr AHNE, ac yn gyson â'u ceisiadau mewn mannau eraill yn yr Adroddiad Effaith Lleol hwn, mae CSYM yn gofyn am sefydlu'r Gronfa Amgylchedd arfaethedig drwy gydol y cyfnod adeiladu ac am 10 mlynedd wedyn i ariannu gwelliannau i'r dirwedd o fewn yr AHNE sy'n lleol i'r safle. Byddai'r gronfa hon yn ymdrin â rhai o'r mesurau a amlinellir uchod ynglŷn â gwella a chynnal a chadw llwybrau troed a phlannu oddi ar y safle, ond byddai'n ymestyn i gynnwys adfer ffiniau caeau a chynefinoedd pwysig, rheoli rhywogaethau goresgynnol, rheoli draeniau a darparu rhaglenni sgiliau gwledig â chymunedau ac ysgolion lleol.

[13] Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[417]